1 Mai 2007

Asiantaeth Ffilm Cymru'n Cyhoeddi Nawdd o £800,000 i Wneuthurwyr Ffilm o Gymru

Heddiw, cyhoeddodd Asiantaeth Ffilm Cymru y bydd rhai o enwau mwyaf cyffrous y diwydiant ffilm yng Nghymru yn derbyn cyfanswm nawdd o £800,000.

Mackenzie Crook, sy'n enwog am 'The Office' a 'The Pirates of the Caribbean', fydd seren 'Abraham's Point', drama arloesol yr awdur-gyfarwyddwr Wyndham Price; un o bedair ffilm sy'n cael eu cefnogi gan yr Asiantaeth Ffilm.

Bydd Crook, sydd newydd orffen perfformio yng nghynhyrchiad y Royal Court o'r 'Seagull', lle enillodd gryn glod iddo'i hun, yn chwarae'r prif gymeriad Comet Snape, dyn sy'n cael ei aflonyddu gan ei orffennol dirgel. Yn 'Abraham's Point' gwelir Crook yn dechrau ar daith emosiynol o Lundain i Sir Benfro mewn ymdrech i oresgyn trasiedi deuluol sydd wedi bod yn fwgan iddo ers ei ieuenctid.

Wedi treulio wyth mlynedd ar y gylchdaith gomedi 'stand-up', a chael cyfle i wneud enw iddo'i hun ar yr '11 'o' clock Show', a'r sioe sgetsus 'TV to GO', aeth Crook yn ei flaen i serennu yn 'The Office' fel Gareth yr is-reolwr oedd ag obsesiwn â Byddin y Tiriogaethwyr. Wedyn, cafodd ran yn y ffilm 'Pirates of the Caribbean' gyda Johnny Depp, cyn ymddangos yn 'The Life and Death of Peter Sellers'.

Tony Purves fydd yn cynhyrchu'r ffilm, dan faner cwmni Wyndham Price, Spinning Head Film, y cwmni cyntaf erioed i sefydlu ei hun o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Maent eisoes wedi cynhyrchu nifer o ffilmiau byr gan gynnwys, 'Mabel', 'Catapult', 'Cardiff West' a 'This Mortal Coil'. Enwebwyd 'Mabel' am Wobr DM Davies yng Ngŵyl Sgrin Caerdydd yn 2005, ac enillodd Gwobr Clod Arbennig yng Ngŵyl Ffilmiau Byr Granada. Enwebwyd 'This Mortal Coil' am wobr BAFTA Cymru eleni.

Wyndham Price yw un o sgriptwyr ffilm ac un o gyfarwyddwyr mwyaf nodedig Cymru. Mae wedi ysgrifennu dros 30 o sgriptiau ffilm byr, a hefyd wedi ysgrifennu a chyfarwyddo

ar gyfer y llwyfan a'r teledu. Astudiodd ym Mhrifysgol Sheffield ac yn Academi Ffilm Efrog Newydd.

"Mae 'Abraham's Point' yn stori glasurol sydd â diweddglo epig iddi, fydd yn cael ei saethu ar draethau Sir Benfro. Mae calon ysbrydol y ffilm yn seiliedig ar ffawd a siawns, ac ar daith o achubiaeth a gwaredigaeth rhag euogrwydd sy'n deillio o drasiedi personol. Er yn ddoniol ar adegau, mae naws ffilm ias a chyffro ynddi, ac mae'r stori yn un emosiynol, afaelgar sy'n gorffen ag ymryddhad i'r prif gymeriad. Mae'n stori ddwys a chynhyrfus, a 'rydym yn gobeithio y bydd y diweddglo epig yn cyffwrdd pawb yn y sinema," eglura Price.

"Yr hyn a apeliodd at Mackenzie Crook oedd y comedi, y cyffro a'r elfennau o ffilmiau cowboi sydd yn y sgript, ynghyd ag ansefydlogrwydd emosiynol dirdynnol y prif gymeriad. Mae cast y ffilm yn gwbl ffantastig, yn llawn dihirod ac angylion. 'Rydym wrth ein bodd cael gweithio gyda Mackenzie."

Saethir y ffilm ar leoliad yr haf yma yn Llundain, Caerdydd, Bannau Brycheiniog, Bro Morgannwg a Sir Benfro. Mae'r gwerthiant yn nwylo Moviehouse Entertainment o Lundain, sydd ar hyn o bryd yn gwerthu 'The Tiger's Tail', John Boorman a 'Sweet Land', ennillyd gwobr yr Indie Spirit. Bydd Moviehouse yn cyhoeddi 'Abraham's Point' yng Ngŵyl Ffilm Cannes eleni.

Mae ie ie productions o Gaerdydd, cwmni Gruff Rhys, lleisydd a gitarydd y Super Furry Animals, a Catryn Ramasut, hefyd wedi derbyn nawdd ar gyfer ffilm ddogfen newydd. Mae 'Seperado!' (teitl dros dro) yn ffilm daith (road movie) seicedelic gyfareddol a gafaelgar sy'n dilyn ôl troed hynafiaid Gruff. O Brasil drwy'r anialwch ac i fyny i'r Andes drwy'r Ariannin, mae Gruff yn gweu i'w daith un-dyn o amgylch De America olrhain sefydlu'r Batagonia Gymreig yn yr Ariannin,

Saethwyd prif gorff y rhaglen ddogfen yn yr Ariannin ddiwedd 2006, gyda rhywfaint hefyd wedi ei saethu yng Ngogledd Cymru, a gobeithir ffilmio ymhellach yng Nghaerdydd yr haf yma. Mae rhywfaint o'r hyn sydd eisoes wedi'i ffilmio wedi cael ei ddefnyddio gan Dyl Goch y cyfarwyddwr/gŵr camera/golygydd, er mwyn cynhyrchu fideo ar gyfer ail sengl Rhys, Gyrru Gyrru Gyrru, o'i albwm un-dyn, Candylion.

“Ni fyddai’r prosiect hwn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth ac anogaeth Pauline Burt a’r tîm yn yr Asiantaeth Ffilm - maent wedi rhannu ein gweledigaeth greadigol drwyddi draw. ‘Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Cwmni Da sy’n ein cynorthwyo gyda’r ôl-gynhyrchu,” meddai Ramasut.

Ychwanega Rhys: “Mae ‘cliché’ yn bodoli ym mysg cerddorion pan ar daith nad ydych chi’n gweld dim byd ar y ffordd, bod pob tref yn diflannu i niwl y cof. Mae’r ffilm yma’n gyfle i droi taith un-dyn o Dde America yn archwiliad o beth yw natur hunaniaeth, ac yn siwrne o ddarganfyddiad cerddorol sy’n cael ei chyflwyno mewn dull gweledol mentrus.”

Mae Asiantaeth Ffilm Cymru hefyd wedi rhoi arian i’r ddrama ‘I Know you Know’, sy’n sôn am ddod i oed, ble mae bachgen ifanc yn credu fod ei dad yn ysbïwr. Bydd y ffilm yn cael ei saethu yng Nghaerdydd yr haf yma, tref enedigol yr awdur a’r cyfarwyddwr Justin Kerrigan.

Wedi ennill sawl gwobr, a’i enwebu sawl gwaith, mae Kerrigan yn fwyaf adnabyddus am ei ffilm boblogaidd ‘Human Traffic’ a wnaed ym 1999. Enillodd Wobr BAFTA Cymru am y Cyfarwyddwr Gorau, a Gwobr y Rheithgor yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Bermuda yn 2000. Fe enillodd Wobr Arbennig y Rheithgor yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Brwsel hefyd, a cafodd ei enwebu am Wobr Carl Foreman am y Newydd-Ddyfodiad Mwyaf Addawol yng Ngwobrau BAFTA Cymru yn 2000.

Bydd Kerrigan yn cyd-weithio â Sally Hibbin, sy’n gynhyrchydd profiadol ac wedi ennill gwobrau am ei gwaith. Mae rhestr faith gwaith Sally Hibbin yn cynnwys ‘Yasmin’, enillydd Gwobr y Gynulleidfa yng Ngŵyl Ffilm Dinard Prydain yn 2004, ‘Liam’ gydag Ian Hart, ‘Carla’s Song’, a gafodd wobr arall ac a gyfarwyddwyd gan Ken Loach, a ‘The Governess’ gan yr awdur-gyfarwyddwr Sandra Goldbacher gyda Minnie Driver.

“Dyma’r ffilm gyntaf i mi ei gwneud yng Nghymru, felly mae pawb yn hynod gyffrous. ‘Rwyf yn arbennig o falch o’r gefnogaeth ‘rydym wedi ei chael, ac ‘rwy’n edrych ymlaen at ffilmio yng Nghaerdydd yr haf yma,” eglura Hibbin.

Mae’r Asiantaeth Ffilm hefyd yn cefnogi ‘Blonde’, ffilm arswyd sy’n llawn ias a chwerthin, a ysgrifennwyd gan yr awdur-gyfarwyddwr o Gymru, Caradog James. Mae’n cael ei

chynhyrchu gan Julie Baines o Dan Films. Mae'r ffilm yn dilyn y troeon poenus ac anghyffredin sy'n digwydd i fachgen 16 oed pan mae'n darganfod menyw ifanc hardd yn ei dillad isaf wedi ei chloi yn y seler. Ond pwy yw hi go iawn, ac ai hi mewn gwirionedd yw merch ei freuddwydion?

Enwebwyd Caradog am Wobr BAFTA Cymru yn 2006 am y Cyfarwyddwr Drama Gorau am 'Little White Lies', ac mae hefyd wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr Douglas Hickox yng Ngwobrau'r Ffilmiau Annibynnol Prydeinig yn 2006 am yr un ddrama.

Mae rhai o lwyddiannau mwyaf diweddar Baines yn cynnwys cynhyrchu 'Puffball', Nicolas Roeg, cyfarwyddwr amryw o glasuron fel 'Performance', Walkabout', 'Don't Look Now', 'Bad Timing', 'Eureka', 'Track 29' a 'The Witches'. Baines hefyd gynhyrchodd 'Creep', ffilm gyntaf Chris Smith, ffilm arswyd a leolwyd ar Reilffordd Danddaearol Llundain gyda Franka Potente o 'The Bourne Identity' a 'Supremacy'.

"Mae 'Blonde' wedi'i datblygu'n gyfan gwbl erbyn hyn, a bydd y ffilmio'n digwydd yng Nghaerdydd yr haf yma, a gobeithir dangos y ffilm yn hydref 2008. 'Rydym wrth ein bodd cael cefnogi talent newydd o Gymru, ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'u llwyddiannau yn y farchnad ryngwladol," medd Baines.

Dywed Britt Harrison, Pennaeth Talent yr Asiantaeth Ffilm: "Mae talent fawr i'w gael yng Nghymru ac mae'n fraint medru cefnogi'r rhain yn ogystal â gwneuthurwyr ffilm eraill."

Ychwanega Pauline Burt, Prif Swyddog Asiantaeth Ffilm Cymru: "Fel Asiantaeth 'rydym yn canolbwyntio cant y cant ar ddatblygu talent, sgiliau a chreadigrwydd newydd yn y diwydiant ffilm Cymreig, wrth hyrwyddo cynhyrchu ffilmiau llwyddiannus a nodedig, fydd yn gweithredu fel llwyfan ar gyfer talent o Gymru ledled y DU, ac yn rhyngwladol".

"Mae ein llechen yn cynnwys amrywiaeth eang o ffilmiau gan nad ydym yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar yr hyn mae gwneuthurwyr ffilm o Gymru am ei archwilio, o ran genre, lleoliad na natur y straeon. Yr unig amod sydd gennym yw bod yn rhaid i'r ffilmiau ateb gofynion ffilmiau Prydeinig."

“Mae’n dilyn, felly, fod gennym gymysgedd dda ar ein llechen ar hyn o bryd, sy’n amrywio o ffilmiau ‘art house’ sydd â chyllid bach, i ffilmiau cyllid mawr sy’n perthyn i’r brif ffrwd. Yn ogystal â’r pedair ffilm ‘rydym yn eu hariannu ar hyn o bryd, ‘rydym yn gweithio’n agos â phrosiectau eraill sydd ar ein llechen, gan gynnwys ‘The Library Van’ gan Gideon Koppel, ffilm ddogfen sy’n archwilio cymuned wledig yng Ngogledd Cymru, ‘Summer Scars’ gan Julian Richard, drama am dyfu i fyny a dod i oed, a ‘Flick’, ffilm arswyd ffasiynol David Howard, gyda Faye Dunaway.”

Gorffennodd Burt drwy ddweud: “Wrth i ni edrych ymlaen at Ŵyl Ffilm Cannes, gallwn fod yn hyderus fod awyrgylch bywiog iawn yng Nghymru fel cenedl, sy’n cefnogi ac yn meithrin gwneuthurwyr ffilm o Gymru. ‘Rydym ni yma i annog hynny, ac yn bwysicach fyth, i helpu i wireddu syniadau a dyheadau gwneuthurwyr ffilm talentog “.

Mae Asiantaeth Ffilm Cymru’n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yr UK Film Council a Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Busnes Creadigol Cymru, a sefydlwyd er mwyn cefnogi, annog ac ehangu amrywiaeth a nifer y ffilmiau sy’n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ac i feithrin y talent creadigol sy’n bodoli yng Nghymru.